RHIFYN ISSUE 59

LLAIS LLANTRISANT

20.12.23



DYDDIADAU'R TYMOR
TERM DATES

Diwrnod olaf Tymor yr Hydref eleni fydd 22.12.23 am 3:30 yp. Bydd y plant yn dychwelyd ar gyfer Tymor y Gwanwyn ar 09.01.24.

Cofiwch ymweld â chalendr gwefan yr ysgol yn rheolaidd i wirio dyddiadau.

The last day of the Autumn Term this year is on 22.12.23 at 3:30 pm. The children return for the Spring Term on 09.01.24. Remember to visit the school website calendar regularly to check dates.

HMS 2023-2024
INSET 2023-2024

Eleni, bydd pob ysgol yng Nghymru yn cau am 6 diwrnod HMS.

This year, every school in Wales will close for 6 INSET days.

04.09.23	27.10.23	08.01.24
09.02.24	08.04.24	22.07.24

DIOLCH
THANK YOU

Ar ran pawb yn yr ysgol, hoffem ddiolch i bawb am yr anrhegion hael a'r cardiau unwaith eto eleni. Gobeithio y byddwch yn mwynhau'r gwyliau Nadolig ac edrychwn ymlaen at glywed straeon Nadolig y plant yn y flwyddyn newydd!

On behalf of everyone at school, we would like to thank you for the generous gifts and cards once again this year. We hope you enjoy the Christmas break and we look forward to hearing the children's Christmas stories in the new year!



DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

21.12.23 - Diwrnod y Partïon Nadolig - M, D, Bl 1 a Bl 2
Christmas Parties Day - N, R, Yr 1 & Yr 2

22.12.23 - Diwrnod Disgo Nadolig - Bl 3 i 6
Christmas Disco Day - Yr 3 to 6

22.12.23 - Diwrnod ola'r tymor - gorffen am 3:30 yp
Last day of term - 3:30 pm finish

08.01.24 - Diwrnod HMS i'r staff
Staff INSET day

09.01.24 - Plant yn dychwelyd - Tymor y Gwanwyn 2024
Children return - Spring Term 2024

COR YR YSGOL
THE SCHOOL CHOIR





Diwrnod arall i'w gofio ar Ragfyr 12fed gydag aelodau Côr yr Ysgol yn perfformio mewn cyngerdd Nadolig yn Neuadd Hoddinott y BBC, Caerdydd yng nghwmni Cerddorfa a Chorws Cenedlaethol Cymreig y BBC a fydd yn cael ei ddarlledu ar Radio Cymru dros yr ŵyl. Profiad arbennig a fydd yn aros yn y cof am byth!

Hefyd, cafwyd perfformiad penigamp arall yng nghyngerdd Nadolig y GRhA yn Ysgol Llanhari ar 03.12.23. Diolch i bawb am yr holl gefnogaeth.

A day to remember on December 12th for members of the School Choir who performed with the BBC National Orchestra and Chorus of Wales in the BBC Cymru Wales Christmas Concert which will be broadcast on Radio Wales over the Christmas period. An amazing experience which will stay with the children for years to come!

Also, we saw another great performance by the choir in the annual PTA Christmas Concert which was held in Ysgol Llanhari on 03.12.23. Many thanks to you all for your support.



DIWRNOD PLANT MEWN ANGEN 2023
CHILDREN IN NEED DAY 2023

Diolch yn fawr iawn i'r rhai sydd wedi'n helpu i godi £719 at yr elusen eleni!

Many thanks to those who helped us raise £719 towards the charity this year!

Thema'r diwrnod: Dillad anffurfiol
Diolch am gefnogi'r elusen werthchweil hon ar 17.11.23
Theme for the day: Informal clothes
Thank you for supporting this worthy cause on 17.11.23













£719
raised of £750 target
by 64 supporters



LLONGYFARCHIADAU!
CONGRATULATIONS!

Llongyfarchiadau i LG ar ei lwyddiant mewn cystadleuaeth nofio yn ddiweddar. Daeth LG yn 3ydd tra'n cystadlu gyda @RCTSwimSquad.

Many congratulations to LG on his success in a recent swimming competition. LG came 3rd when competing with @RCTSwimSquad.



Llongyfarchiadau mawr i OB, ME a GD am ddod yn drydydd fel tîm tra'n cystadlu yn rasys Traws Gwlad Yr Urdd yng Nghaerdydd y tymor hwn! Llongyfarchiadau hefyd i TC a HC ar eu llwyddiant nhw hefyd!

Many congratulations to OB, ME a GD who came third as a team when competing in the Urdd Cross Country races in Cardiff this term. Many congratulations also to TC and HC for their success in the same event!



Mewn cystadleuaeth i ddylunio cerdyn Nadolig i @MickAntoniw1 ac @AlexDaviesJones, daeth dau o'n disgyblion yn 2ail ac yn 3ydd! Da iawn wir i GB a MJ!

In a recent competition to design a Christmas card for @MickAntoniw1 and @AlexDaviesJones, two of our pupils came 2nd and 3rd! Well done to GB a MJ!



Cofiwch ymweld â / *Remember to visit:* **www.yggglantrisant.cymru**

PERFFORMIADAU'R NADOLIG
CHRISTMAS PERFORMANCES

Llongyfarchiadau mawr i bob plentyn am eu holl waith caled wrth iddynt baratoi a pherfformio yn eu cyngherddau Nadolig eleni. Diolch hefyd i'r holl staff am eu gwaith diflino i sicrhau fod pob plentyn yn cael cyfle i berfformio ar lwyfan yr ysgol. Diolch yn fawr iawn i'n holl gefnogwyr am ddod i'r ysgol i wylio'r sioeau ac am eich cyfraniadau!

Many congratulations to all of the children for their hard work in preparing and performing their Christmas concerts this year. Also, thank you to the staff for their tireless work to ensure all pupils had the chance to perform on stage. Many thanks to all of our supporters for coming along to school to see the shows and for your contributions!

















COEDEN NADOLIG EGLWYS LLANTRISANT
LLANTRISANT CHURCH CHRISTMAS TREE

Gwaith arbennig o dda gan y plant, unwaith eto, wrth iddynt greu coeden Nadolig i'w gosod yn Eglwys Llantrisant ar gyfer Gŵyl y Coed Nadolig.

Wonderful work by the children once again this year in creating a Christmas tree for the Llantrisant Parish Church Christmas Tree Festival.



NADOLIG LLAWEN!
MERRY CHRISTMAS!

Mwynhewch wyliau'r Nadolig a gwelwn ni chi ar Ionawr 9fed 2024.

Enjoy the Christmas break and we'll see you on January 9th 2024.



Dilynwch ni ar / *Follow us on:* **@YGGGLlantrisant**